**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019 yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl**

YN BRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cyng. Bryan Apsley (Cadeirydd)
Y Cyng. John Brynmor Hughes
Ken Finch, Trysorydd
Gareth Owens, Dirprwy Swyddog Monitro

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Duncan Stewart-Ball, Undeb yr FBU
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Blythe Roberts, Undeb yr FBU

Yn cynghori
Kevin Gerard, Rheolwr Pensiynau, Cronfa Bensiwn Dyfed
Martin Morgan, Cronfa Bensiwn Dyfed
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol
Julie Brown, Rheolwr Pensiynau

Yn cofnodi
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau
Cathryn Thomas, Swyddog Cyswllt Aelodau

YMDDIHEURIADAU
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r Cyflogwr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2019 eu cymeradwyo'n gofnod cywir.

3 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

3.1 Fe wnaeth y Rheolwr Pensiynau gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am aelodaeth y cynllun, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Grŵp Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru gyfan a Grŵp Swyddogion Pensiwn Tân Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr

- Gweithdy ar Gyflog Pensiynadwy
- Achos Cyfreithiol Amddiffyniadau Trosiannol
- Y Diweddaraf am y Datganiad Buddion Blynyddol
- Golwg Gyffredinol ar Fwletinau a Chylchlythyrau FPS

3.2 Booth v GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru – mae gan hyn oblygiadau gwahanol i unigolion gwahanol, a bydd y canlyniad yn seiliedig ar sefyllfa contractau ymhob GTA. Bydd angen ystyried lwfansau sy'n cael eu talu'n barhaol a rhai sy'n seiliedig ar uwchgodiad i gyflog sylfaenol er mwyn penderfynu a ddylid trin y lwfansau fel rhai pensiynadwy. Mae'r mater yn cael ei symud ymlaen gan dîm y Swyddog Monitro a cheisir cael barn gyfreithiol ynglŷn ag a yw'r lwfansau sy'n cael eu talu gan GTAGC yn dod o fewn dyfarniad Booth.

3.3 Fy Mhensiwn Ar-lein – dim ond 50% o'r aelodau sydd wedi cofrestru ar y system; ond mae sawl ymgyrch wedi cael eu cynnal i annog aelodau i edrych ar eu pensiwn ar-lein. Bydd Duncan Stewart-Ball yn codi'r mater yn y cyfarfod nesaf o aelodau Undeb yr FBU ac yn holi pam nad yw'r aelodau yn mynd arno. Awgrymwyd y dylid anfon atodiad gyda'r papurau cyflog i atgoffa'r aelodau i edrych ar Fy Mhensiwn Ar-lein. Awgrym arall oedd gwe-ddarlledu sesiwn hyfforddi gan Gronfa Bensiwn Dyfed.

3.4 Her Gyfreithiol i Amddiffyniad Trosiannol Pensiynau – nodwyd mai'r sefyllfa ar ôl cytuno ar gywiriad fydd na ellir ei weithredu hyd nes bydd y Rheoliadau a'r ddeddfwriaeth wedi cael eu newid.

3.5 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

4 Y DIWEDDARAF AM GRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWYR Y CYNLLUN)

4.1 Cyflwynodd Kevin Gerard yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y modd mae'r cynlluniau'n cael eu gweinyddu gan Gronfa Bensiwn Dyfed.

4.2 Rhoddodd Mr Gerard olwg gyffredinol ar y cyfrifoldebau fel gweinyddwyr cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn rhoi sicrwydd fod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol a rhoddodd ddiweddariadau am y canlynol:

- Y diweddaraf am faterion rheoleiddio
- E-gyfathrebu
- Datganiadau Buddion Blynyddol
- Ailgysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig
- Adroddiadau Ansawdd Data
- Apeliadau

- Achosion o dorri'r rheolau
- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Llif Gwaith.

4.3 Cafodd yr aelodau wybod bod sgoriau data yn wybodaeth gyhoeddus a hefyd ei bod yn bosibl nad yw cymharyddion cyfatebol wedi cael eu hystyried yn yr un flwyddyn a bod glanhau data yn broblem barhaus. Mae'r cynllun gwella data yn nodi sut mae'r Gronfa'n bwriadu gwella ansawdd y data sy'n cael ei gasglu. Esboniodd Mr Gerard y broses sy'n cael ei dilyn i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau a sut maent yn canfod pobl sydd wedi symud i fyw neu aelodau sydd wedi marw.

4.4 Nodwyd bod gan Gronfa Bensiwn Dyfed ei chofrestr risgiau ei hun ar gyfer nodi risgiau a ffactorau yr ystyrir eu bod yn lleihau risg.

4.5 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 SESIWN HYFFORDDI AR GYFLOG PENSIYNADWY

5.1 I ateb cais gan aelodau yn y cyfarfod diwethaf, rhoddodd y Rheolwr Pensiynau gyflwyniad yn esbonio cyflog pensiynadwy.

5.2 Yn ystod y cyflwyniad, nodwyd bod nifer o heriau cyfreithiol wedi bod am y mater, a dylai pob Awdurdod Tân ac Achub ystyried eu safbwynt. Cafodd safbwynt ATAGC ei nodi'n gynharach yn y cyfarfod (gweler 3.2).

6 BWRDD CYNGHORI'R CYNLLUN – Y DIWEDDARAF AR LAFAR

6.1 Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn ddiweddar. Cadarnhaodd y PST MacArthur fod y materion a drafodwyd yn gyffredin i nifer o eitemau ar yr agenda sy'n cael eu hystyried gan y Bwrdd Pensiwn Lleol. Cafodd yr eitemau canlynol eu codi yn ystod Bwrdd Cynghori'r Cynllun:

- arian grant ar gyfer y cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr – bydd yr aelodau'n ymwybodol fod cyfraniadau cyflogwyr yn 2019/20 wedi cynyddu tua 10%, sef £1.3miliwn i GTAGC. Y rhagdybiaeth waith yw y byddai'r cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, roedd peth ohono wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ond gallai'r cyllid yn y dyfodol fod yn broblem a gaiff ei thrafod gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun yn ei gyfarfod nesaf ar 31 Hydref.

- lwfansau blynyddol – os ydynt yn cael eu torri, gallant fod yn gostus oherwydd mae goblygiadau treth; mae Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn gwneud darn o waith i ystyried a fydd canlyniadau treth pensiynau yn cael effaith ddrwg ar bobl sy'n eu cyflwyno eu hunain ar gyfer dyrchafiad neu ar gadw staff cyfredol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus yn mynd ymlaen ar gynigion ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG, ac mae cyfle gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun i roi adborth o safbwynt Cynlluniau'r Diffoddwyr Tân.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 COFRESTR RISGIAU

7.1 Roedd yr Aelodau'n ymwybodol fod y Rheoleiddiwr Pensiynau yn argymell bod aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol yn ystyried ac yn adolygu eu Cofrestr Risgiau yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd. Cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol i gynnal adolygiad treiglol o feysydd risgiau penodol yn ystod cyfarfodydd yn y dyfodol, felly cafodd y maes risg gweithredol ei gyflwyno yn y cyfarfod er mwyn ei ystyried.

7.2 Mae seiber-droseddau yn broblem fawr ar gofrestr risgiau'r Awdurdod yn ogystal ag ar gofrestr risgiau'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Esboniodd y PST MacArthur fod hynny'n risg cynhenid gweddilliol, sef mae'r risg yn uchel ni waeth faint o waith sy'n cael ei wneud i leihau'r risg pan fo modd.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r Maes Risg Gweithredol ar y Gofrestr ar gyfer 2019-20, ac y bydd unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau yn cael eu hymgorffori yn y gofrestr a bydd y ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

8 MATERION AR GYFER YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB LLAWN

8.1 Nid oedd unrhyw faterion i gael eu hystyried gan yr ATA llawn.

9 UNRHYW FATER ARALL

9.1 Ar gyfer y cyfarfod nesaf, gofynnodd yr Aelodau am gael hyfforddiant ar bensiynau 'dwy ffynhonnell'.

9.2 **PENDERFYNWYD cytuno i'r anghenion hyfforddi, a lle bo'n berthnasol, i drefnu darparwr priodol ar gyfer yr hyfforddiant.**